# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 28 Gorffennaf 2022**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Michael Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Walter Williams. **Ymddiheuriadau –** Cyngr. Einir Williams, Paul Rowlinson, Rheinallt Puw, Dyfrig Jones a Catrin Wager a Huw Jones.

   Nodwyd yr Is-gadeirydd fod criw ffilmio o Japan yn ymweld a Capel Jerusalem dydd Sul, 31ain o Orffennaf i ffilmio'r adeilad fel rhan o safle treftadaeth y byd. Cytunwyd y bydd y Cyng. Neville Hughes yn cyfarfod y criw yn y capel i'w croesawu ar ran y Cyngor.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim.

**3. Materion Brys**
Nodwyd y Cyng. Walter Williams ei fod wedi derbyn cwyn am arwydd siop Penrhyn Pictures ar y stryd fawr, am ei fod yn uniaith Saesneg. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd os oes angen caniatad am y math yma o arwydd.

**4. Cofnodion**
Y Clerc i newid "Adroddwyd y Cyng. Rheinallt Puw..." i "Adroddwyd gan y Cyng. Rheinallt Puw..." o dan eitem 5.3.  Yn dilyn yr addasiad yma, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1** Gordyfiant ar Ffordd Gerlan – y Clerc wedi cysylltu unwaith eto, ond dim ymateb hyd yn hyn. Adroddwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw wedi cysylltu gyda Ian Morgan o'r adran Priffyrdd a fod y gwaith wedi gael ei ychwanegu i'r rhaglen waith. Nodwyd fod y gordyfiant dal heb ei dorri, y Clerc i holi'r adran priffyrdd ar frys.
**5.2** CCTV Stryd Fawr – trafodwyd o dan pwynt 12 (b).
**5.3** Arwyddion stryd – ar y gweill – y Clerc.
**5.4** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog a Pant Glas – Cyng. Rheinallt Puw.
**5.5** Drychau newydd ar Lon Groes a gwaelod Ty'n Ffridd – Y Cyng. Paul Rowlinson – ar y gweill.
**5.6** Cae Chwarae Pantdreiniog – Nodwyd fod y Clerc yn cyfarfod gyda'r contractwyr bore dydd Gwener, a chadarnhawyd y bydd y gwaith yn gael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf.
**5.7** Cyngor Gwynedd – Llinellau melyn Llwyn Bleddyn – ar y gweill – Y Clerc
**5.8** YGC – Sherpa Shelters – nodwyd fod y lloches bws ger Glan Ffrydlas wedi cael ei osod. Y Clerc i holi os oes bosib gosod y sgriniau gyda'r amserlen yn y llochesi metel presennol y mae'r Cyngor wedi'i osod yn ddiweddar.
**5.9** Llinellau Melyn – man pasio ger Fynwent Coetmor a tu allan i rhif 3 Tanybwlch, Rachub – ar y gweill – y Clerc.
**5.10** Y Clerc i cylchredeg Ffurflenni Datganiad o Daliadau a Derbyn Swydd i'r holl aelodau.
**5.11** Ffordd Llwyn Bleddyn a Mynediad i fynwent Coetmor – y Clerc wedi danfon pryderon y Cyngor ymlaen ac wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd i gynnal asesiad dioglewch ar y ffordd.
**5.12** Wynne Parry, Adra – Safle Stryd y Ffynnon – Y Clerc wedi cyfarfod ar y safle gyda'r Cyngr. Ann Williams a Linda Brown. Nodwyd fod nifer o materion eraill wedi codi, e.e. slabiau concrit wedi torri, tyfiant rhwng y slabiau. Y Clerc i godi'r materion yma gyda Wynne Parry a Judith Kaufmann, sydd yn rhan o'r grwp cymunedol sydd yn defnyddio'r safle.
**5.13** Llys Dafydd – Cadarnhawyd efallai bod Llysiau'r Dial ar y safle, y Clerc i cysylltu gyda cwmni arbennigol. Yn dilyn hyn, y Clerc i bwyso ymlaen ar gael gwneud y gwaith ar y wal gynnal.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyngor, a diolchwyd i'r holl staff yn y Bartneriaeth am eu holl gwaith caled. Y Clerc i ddanfon ebost at y Prif Swyddog i'w llongyfarch ar ei holl waith.

**7. Maes Bleddyn**

**Bin cae chwarae** - Nodwyd y Cyng. Godfrey Northam fod y bin ger maes chwarae Maes Bleddyn heb bwced metal ynddi, a fod angen i Cyngor Gwynedd rhoid bwced newydd yn y bin presennol, neu rhoid bin newydd ar y safle. Yn bwysicach byth, nid yw'r bin hwn yn gael ei wagio digon aml, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
**Palmant ar ffordd Llwyn Bleddyn** – Nodwyd fod y palmant hwn (rhwng rhif 1 a 60 Maes Bleddyn) angen i lanhau, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**8. Tyfiant Ffordd Gerlan**
Mae'r mater nawr yn ddifrifol, mae angen torri'r tyfiant a chwynu ochrau y ffordd – mae pobl yn gorfod cerdded ar y ffordd, does dim lle ar ochrau'r ffyrdd. Y Clerc i holi adran Priffyrdd ar frys.

**9. Ysbwriel ger Ysgol Abercaseg**
Codwyd y mater hwn gan y Cyng. Linda Brown. Cadarnhawyd y Cyng. Neville Hughes ei fod yn codi ysbwriel ar y darn hwn yn fisol, ac fod bin ar gael ar giat yr ysgol.

**10. Mainc Cae Chwarae Pont Waun**
Nodwyd y Clerc ei bod wedi cyslltu a'r swyddog perthnasol, ond fod y swyddog ar ei wyliau tan canol Awst. Y Clerc i diweddaru'r Cyngor yn nghyfarfod mis Medi.

**11. Maes parcio Gerlan**
Dim diweddariad ar gael. Cytunwyd y bydd y Cyng. Einir Williams a'r Cadeirydd yn trefnu cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd i geisio gwthio pethau ymlaen.

**12. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Cylchredwyd cofnodion y Pwyllgor Cyllid i'r holl aelodau cyn y cyfarfod, a phenderfynwyd derbyn yr adroddiad.
**(a) Asesiad Risg –** Penderfynwyd mabwysiadwy'r asesiad risg a gafwyd ei gyflwyno yn y cyfarfod.
**(b) CCTV Maes Parcio Cae Star –** Penderfynwyd y bydd y Cyngor yn pwyso ymlaen i ymgynghori, ac i gynnal noson agored yn Canolfan Cefnfaes ar yr 20fed o Fedi, 4yp – 8yh. Nodwyd hefyd y bydd y Clerc yn cysylltu a Chyngor Gwynedd am y 6 camera ychwanegol yn Cae Star, ac iddyn nhw ariannu'r darn yma o'r prosiect os mae nhw isho'r camerau yno.

**13. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2022'
**13.1** Rhian George, Cyngor Gwynedd - Gweithdai Ardal Ni 2035 – Penderfynwyd y bydd Cyngr. Mary Jones a Walter Williams yn cynrychioli'r Cyngor.

**14. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C22/0256/13/LL**

| | |
|---|---|
| Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0327/16/AC**

| | |
|---|---|
| Chwarel y Penrhyn | Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 o ganiatad cynllunio C16/1164/16/MW<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C22/0336/16/MW**

Chwarel y Penrhyn

Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0557/13/DT**

4 Rhes Gerlan, Gerlan

Mae'r gwaith arfaethedig ar gyfer y cais hwn yn ymwneud â dymchwel y porth presennol yn 4 Teras Gerlan ac adeiladu porth newydd, yn cysylltu'r eiddo â'r Hen Garej. Bydd Yr Hen Garej wedyn yn cael ei drawsnewid yn 2 ystafell wely ychwanegol ac ystafell ymolchi i'w defnyddio gan 4 Teras Gerlan. Bydd y porth arfaethedig yn gweithredu fel coridor cysylltu, gan gysylltu'r ddau eiddo. Bydd Yr Hen Garej yn cael ei hadfer yn gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, lleol. Bydd yr estyniad arfaethedig yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio ffrâm bren lleol a'i orchuddio â charreg leol i gyd-fynd â'r Hen Garej.

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0475/13/DT**

8 Tyddyn Canol, Rachub

Estyniad deulawr arfaethedig yn y cefn

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0512/13/LL**

38 Ffordd Tanybwlch, Rachub

Addasu ac ymestyn modurdy presennol yn dy

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C22/0256/13/LL**

Brig y Nant, Coetmor New Road, Bethesda

Codi 18 ty, ffordd newydd a thirlunio

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**Ceisiadau**

**C22/0636/13/LL**

| | |
|---|---|
| 81 Stryd Fawr, Bethesda | Newid defnydd o siop i ddarn a gartref.<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |

**C22/0674/13/AC**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Ffarm Gerlan Ffordd Gerlan, Gerlan, | Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C18/1159/13/LL er galluogi dyluniadau tai diwygiedig<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**15. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Defib Store | BACS | Cabinet – Ysgol Dyffryn Ogwen | £102.00 |
| Mathew Nottingham | BACS | Gwasanaethu boiler Gorffwysfan | £96.00 |
| Zurich Municipal | BACS | Yswiriant y Cyngor | £1,715.58 |
| Scottish Power | BACS | Gorffwysfan – Nwy | £80.71 |
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog mis Mehefin | £318.20 |
| CThEM | BACS | TWE mis Mehefin | £79.60 |
| Cyngor Gwynedd | BACS | Archwiliad Mewnol | £276.00 |
| Dwr Cymru | BACS | Llys Dafydd | £18.15 |